Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Gynradd Brynsaron
Saron
Llandysul
Sir Gaerfyrddin
SA44 5ET

12/11/2025

Annwyl arweinwyr a staff

Ymweliad Interim: Hydref 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Brynsaron yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

Ffocws yr ymweliad

Cryfhau strategaethau i alluogi disgyblion i ddeall yn well beth sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith.

- Mae arweinwyr wedi ymateb yn effeithiol i'r argymhelliad hwn. Maent wedi datblygu trefniadau er mwyn sicrhau cysondeb o ran sut y cynigir adborth i ddisgyblion ac, yn ei dro, sut maent yn gwella eu gwaith.
- Mae arweinwyr yn gwerthuso cynnydd yn gyson. Maent yn arsylwi ar y dysgu gan rannu canfyddiadau gyda staff. Yn ogystal, mae staff yn ymweld ag ysgolion eraill er mwyn rhannu arferion o ran cynnig cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu ymwybyddiaeth o sut i wella eu gwaith.
- Mae athrawon yn darparu adborth llafar buddiol i ddisgyblion yn ystod eu gwaith. Maent yn dathlu llwyddiant y disgyblion mewn gwahanol dasgau, ac yn darparu cyfleoedd buddiol iddynt ddewis sut yr hoffent gyflwyno eu gwaith.
- Gwneir defnydd effeithiol o'r cod marcio, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall y drefn yn dda. Maent yn asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cymheiriaid yn hyderus.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn llwyddiannus i adborth staff, gyda'r disgyblion hŷn yn egluro sut maent yn mynd ati i ddatblygu eu gwaith ymhellach. Mae'r holl waith hwn yn cyfrannu'n fuddiol at berchnogaeth y disgyblion o'u gwaith, gan sicrhau eu cyfranogiad llawn yn eu dysgu.

Datblygu medrau darllen disgyblion

- Mae arweinwyr yn defnyddio ystod bwrpasol o dystiolaeth i fonitro effaith y ddarpariaeth ar fedrau darllen disgyblion. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu.
- Mae arweinwyr ac athrawon yn defnyddio tystiolaeth o ystod o ffynonellau er mwyn datblygu dealltwriaeth gywir o safonau darllen disgyblion. Mae staff yn defnyddio'r wybodaeth er mwyn targedu camau nesaf bob disgybl.
- Golyga hyn fod ychydig o ddisgyblion yn derbyn ymyrraeth uniongyrchol tra bod eraill yn cael eu herio'n bwrpasol i gryfhau eu medrau darllen.
- Mae arweinwyr wedi buddsoddi mewn llyfrau ar gyfer ardaloedd darllen yr ysgol, yn ogystal â llyfrgell rithiol er mwyn ysgogi disgyblion a datblygu eu hangerdd at ddarllen. Mae disgyblion yn mwynhau'r ystod eang o adnoddau darllen ar draws yr ysgol ac yn dewis llyfrau darllen priodol yn annibynnol.
- Mae staff yn cefnogi'r disgyblion ieuengaf i ddatblygu eu medrau darllen cynnar yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae disgyblion yn adeiladu geiriau yn fwyfwy hyderus ac yn dechrau darllen testunau gwahanol at ddibenion pwrpasol.
- Mae disgyblion hŷn yr ysgol yn datblygu medrau darllen gyda rhuglder cynyddol yn Gymraeg a Saesneg. Mae llawer yn trafod llyfrau ffuglen a ffeithiol yn wybodus. Maent yn cywain gwybodaeth yn effeithiol, ac yn trafod teimladau a bwriadau cymeriadau gyda deallusrwydd aeddfed. Maent yn dehongli ystyr geiriau llai cyfarwydd yn llwyddiannus.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6692104

Yn gywir

Liz Miles
Cyfarwyddwr Cynorthwyol